

# Cynnal offer trydanol symudol mewn amgylcheddau risg isel



Fersiwn i'r we o daflen  
INDG236W(rev3), a  
gyhoeddwyd 09/13 yw hwn

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn esbonio'r rhagofalon syml a synhwyrol y dylid eu dilyn i atal perygl o offer trydanol symudol neu gludadwy mewn amgylcheddau risg isel, megis swyddfeydd, siopau, rhai rhannau o westyau a chartrefi gofal preswyl.

Mae hefyd yn darparu enghreifftiau o'r math o offer hwn i'ch helpu i benderfynu beth sydd angen i chi ei wneud i gynnal a chadw offer symudol yn eich gweithle.

## Beth mae'r gyfraith yn ddweud?

Rhaid i chi gynnal offer trydanol os gall achosi perygl, ond nid yw'r gyfraith\* yn dweud sut ddylech wneud hyn na pha mor aml. Dylech benderfynu ar y lefel o gynnal a chadw sydd angen yn ôl y risg y bydd eitem yn ddiffygiol, a sut mae'r offer wedi ei adeiladu. Dylech ystyried:

- y risg cynyddol os na ddefnyddir yr offer yn gywir, os nad yw'n addas i'r gwaith, neu os y'i defnyddir mewn amgylchedd caled; ac
- os nad oes gan yr eitem ynysiad dwbl, er enghraifft, mae rhai tegyll wedi eu daearu ond mae rhai mathau o offer llaw, megis sychwyr gwallt, yn ynysedig dwbl. Gweler tudalen 4 am ragor o wybodaeth ar offer wedi daearu ac offer ynysedig dwbl.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw offer trydanol mae'ch cyflogaion yn defnyddio yn y gwaith, p'un a ydynt yn defnyddio eu hoffer eu hunain neu wedi ei gyflenwi gennych chi. Mae gennych gyfrifoldeb ar y cyd i gynnal unrhyw offer a ddefnyddir gan eich cyflogaion sydd naill ai wedi ei drwyddedu (e.e. llungopiwr) neu wedi ei ddarparu gan gontractwr (ond nid offer sydd wedi ei ddarparu a defnyddio gan gontractwr).

Bydd angen i chi wirio'n gyfnodol os oes angen gwneud unrhyw waith. Mae sut fyddwch yn gwneud hyn yn ddibynnol ar y math o offer.

### **Nid yw pob eitem drydanol angen prawf offer symudol (PAT)**

Mewn rhai achosion, bydd gwiriad syml gan y defnyddiwr yn ddigon, e.e. gwirio am geblau rhydd neu arwyddion o ddifrod tân ac, os yn bosibl, gwirio tu fewn i'r plwg am ddifrod mewnol, gwifrau moel a'r ffiws cywir.

Bydd offer eraill, e.e. glanhawr llawr neu degell, hefyd angen prawf offer symudol, ond nid o reidrwydd pob blwyddyn.

\* Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989

## **Sut ydw i'n sicrhau diogelwch offer trydanol?**

- Anogwch gyflogeion i edrych ar gebl cyflenwad yr offer trydanol cyn ei ddefnyddio (gwiriad defnyddiwr).
- Anogwch gyflogeion i edrych ar yr offer trydanol cyn ei ddefnyddio (gwiriad defnyddiwr).
- Sicrhewch fod unrhyw offer symudol wedi ei archwilio'n weladwy ar gyfnodau cychwynnol allai fod rhwng chwe mis a phedair blynedd, yn ddibynol ar y math o offer. Gweler y pwynt bwled olaf ar y rhestr hon a Thabl 1 ar ddiwedd y daflen hon am ragor o wybodaeth.
- Trefnwch i offer nad yw ag ynysiad dwbl gael prawf offer symudol (yn cynnwys gwifrau) ar gyfnodau rheolaidd allai fod rhwng un a phum mlynedd, yn ddibynol ar y math o offer.
- Sicrhau bod offer wedi ei ddifrodi neu ddiffygiol yn cael ei gydnabod, ei dynnu o ddefnydd yn ddi-oed a naill ai:
  - yn cael ei drwsio gan rywun cymwys (h.y. gyda hyfforddiant, medrau, a gwybodaeth cymwys i'r dasg i atal anaf iddynt eu hunain neu eraill); neu
  - gael gwared arno i atal ei ddefnydd pellach – ymgynghorwch â'ch awdurdod lleol ynglŷn â threfniadau i gael gwared ar offer trydanol.
- Adolygwch eich system gynnal a chadw i bennu a fyddai'n bosibl lleihau neu gynyddu eich cyfnodau archwilio ac/neu brofi. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gadw cofnodion o'r holl archwiliadau a phrofion, ac i labelu offer gyda chanlyniad a dyddiad y prawf, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i wneud y naill na'r llall o'r pethau hyn.

Mae Tabl 1 ar ddiwedd y daflen hon yn rhoi dynodiad cychwynnol o ble gallai archwiliad gweledol fod yn ddigon a ble gallai fod angen profi er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae hefyd yn awgrymu cyfnodau cychwynnol ar gyfer y gwahanol fathau o wiriadau.

## **Gwiriadau defnyddwyr, archwiliad gweledol a phrofion offer symudol**

### ***Gwiriadau defnyddwyr***

Dylid cyflawni'r rhain cyn defnyddio'r rhan fwyaf o offer trydanol, gyda'r offer wedi ei ddatgysylltu. Dylai cyflogeion chwilio am:

- ddifrod i'r lîd yn cynnwys rhafllo, toriadau neu grafiadau drwg, e.e. o orchuddion blychau llawr;
- difrod i'r plwg, e.e. i'r gorchudd neu binnau wedi plygu;
- tâp wedi ei roi ar y gwifrau i'w dal gyda'i gilydd;
- gwifrau lliw yn weladwy ble mae'r lîd yn uno â'r plwg (nid yw'r cebl yn cael ei ddal yn ei le pan fydd yn mynd i mewn i'r plwg);
- difrod i orchudd allanol yr offer ei hun, yn cynnwys rhannau rhydd neu sgriwiau;
- arwyddion o orboethi, megis olion llosg neu staeniau ar y plwg, lîd neu ddarn o offer;
- offer sydd wedi ei ddefnyddio neu storio mewn amgylchiadau anaddas, megis amgylcheddau gwlyb neu lychlyd neu ble mae'n bosibl arllwys dŵr; a
- ceblau wedi eu dal dan ddodrefn neu flychau llawr.

### ***Archwiliadau gweledol***

I gyflawni archwiliad gweledol, nid oes angen i chi fod yn drydanwr, ond mae angen i chi wybod am beth i chwilio a rhaid i chi hefyd fod â digon o wybodaeth i osgoi perygl i chi'ch hun ac eraill.

Gall hyfforddiant syml eich darparu chi (neu aelod o staff) gyda rhywfaint o wybodaeth drydanol sylfaenol i'ch galluogi i gyflawni archwiliad gweledol yn cymwys.


Yn rhan o'r archwiliad gweledol, dylech ystyried:

- a yw'r offer trydanol yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr;
- a yw'r offer yn addas ar gyfer y gwaith;
- a gafwyd unrhyw newid mewn amgylchiadau; ac
- a yw'r defnyddiwr wedi adrodd unrhyw broblemau.

Dylai'r archwiliad gweledol gynnwys y gwiriadau a gyflawnwyd gan y defnyddiwr a, ble fo'n bosibl, bydd yn cynnwys tynnu gorchudd y plwg a gwirio'n fewnol:

- nad oes unrhyw arwydd o ddifrod mewnol, gorboethi neu ddifrod dŵr i'r plwg;
- bod y ffiws cywir yn cael ei ddefnyddio a'i fod yn ffiws go iawn, nid darn o wifren, hoelen ac ati;
- bod y gwifrau, yn cynnwys daear ble mae wedi ei osod, wedi eu cysylltu i'r derfynell gywir (gweler Ffigwr 1);
- bod sgriwiau'r terfynellau'n dynn;
- bod gafael y cordyn yn dal rhan allanol (gwain) y cebl yn dynn; ac
- nad oes unrhyw wifrau moel yn weladwy ac eithrio yn y terfynellau.

Ar gyfer offer/ceblau wedi eu gosod â phlygiau wedi mowldio, dim ond y ffiws a ellir ei wirio.



**Ffigwr 1** Plwg wedi ei weirio'n gywir

### **Prawf offer symudol (PAT)**

Nid oes rhaid cael trydanwr i gyflawni prawf offer symudol, ond mae angen mwy o wybodaeth a phrofiad nag ar gyfer archwiliad yn unig, a rhaid i'r sawl sy'n cyflawni'r prawf gael offer priodol ar gyfer y dasg. Dylent wybod sut i ddefnyddio'r offer profi a sut i ddehongli'r canlyniadau.

Mae'n bwysig dal i gyflawni gwiriadau defnyddwyr ar offer trydanol sydd wedi ei brofi. Mae hyn oherwydd mai dim ond rhoi syniad o ddiogelwch offer ar adeg y prawf fydd profion offer symudol ac nid yw'n golygu y bydd yr eitem yn ddiogel am gyfnod pellach o amser.

Nid y sawl sy'n cyflawni'r prawf ddylai asesu pryd fydd angen y prawf nesaf, gan y dylid gwneud y penderfyniad hwn gennych chi ar sail asesiad risg.

## **Offer symudol a chlodadwy**

Mae offer trydanol symudol neu gludadwy yn eitem y gellir ei symud, naill ai wedi ei gysylltu neu ddatgysylltu o gyflenwad trydan. Yn gyffredinol mae gan eitemau symudol neu gludadwy lid (cebl) a phlwg.

Mae offer symudol a chlodadwy yn cynnwys y canlynol:

- offer trydanol y gellir eu symud yn ddidrafferth, megis tegellau, sugnwr llwch, llathrydd llawr, gwresogyddion symudol, gwyntyllau, lampau desg, rhai mathau o deledu, radios, rhai mathau o bopty trydanol bach, taflunyddion cyfrifiaduron, offer bach fel haearn smwddio, sychwyr gwallt ac offer cegin yn cynnwys cymysgwyr bwyd, tostwyr ac ati;
- ystyrir eitemau mwy y gellir eu symud (ond yn anaml), e.e. oeryddion dŵr, oergelloedd, poptai ping, llungopiwyr, peiriannau gwerthu, peiriannau golchi, poptai trydanol, peiriannau ffacs, cyfrifiaduron pen bwrdd, gwllâu trydanol ac ati i fod yn eitemau cludadwy;
- mae eitemau llaw, megis sychwyr gwallt, nad oes ganddynt blwg ond sydd wedi eu gwifrio i mewn (neu'n sefydlog) yn dal i gael eu hystyried i fod yn offer symudol, ond nid yw eitemau trydanol mwy, megis boeleri dŵr sydd wedi eu gwifrio i mewn, yn offer symudol am nad ydynt wedi eu cynllunio i'w symud a byddant yn cael eu cynnwys dan gwmpas cynnal a chadw offer sefydlog;
- offer gwefru ffonau symudol a batris eraill sy'n cael ei blygio i mewn i'r prif gyflenwad (ond ni fyddai'r ffonau eu hunain ac unrhyw offer arall â batri yn cael eu cynnwys); ac
- lidiau estyniad, addaswyr sawl ffordd a lidiau cysylltu.

## **Offer wedi daearu ac offer ynysedig dwbl**

Wrth benderfynu p'un ai i brofi offer trydanol, mae angen i chi ystyried yr adeiladwaith a'r offer mewn defnydd. Mae yna ddau fath sylfaenol o adeiladwaith offer trydanol – Dosbarth I (wedi daearu) a Dosbarth II (ynysedig dwbl).


### **Offer wedi daearu**

Am resymau diogelwch, mae gan offer Dosbarth I gyswllt daear. Os oes gwall yn yr offer, mae'n bosibl y gallai tu allan yr offer achosi sioc drydanol os nad yw'r cyswllt daear yno. O ganlyniad, argymhellir cyflawni prawf offer symudol ar offer Dosbarth I er mwyn sicrhau bod y cyswllt daear yn sefydlog.



### **Offer gydag ynysiad dwbl**

Weithiau fe gyfeirir at offer Dosbarth II fel offer 'ynysiad dwbl'. Mae hyn yn golygu bod yna ynysiad ychwanegol o fewn adeiladwaith yr offer i atal cyswllt damweiniol gyda rhannau byw, hyd yn oed os oes diffyg.

Nid yw offer Dosbarth II angen cyswllt daear i gynnal diogelwch. Ni fydd angen prawf offer symudol, er y dylech sicrhau y cyflawnir gwiriadau defnyddwyr a gwledol gan fod cyfanrwydd casin yr offer yn nodwedd ddiogelwch allweddol.

Mae offer Dosbarth II wedi ei nodi â . Os na allwch weld y symbol hwn, dylech dybio fod yr eitem yn offer Dosbarth I a chyflawni prawf offer symudol.

**Tabl 1** Cyfnodau cychwynnol awgrymedig ar gyfer gwirio offer trydanol symudol

<b>Offer/amgylchedd</b>	<b>Gwiriadau defnyddwyr</b>	<b>Gwiriad gweledol ffurfiol</b>	<b>Archwiliadau a phroffion cyfunol</b>
Wedi pweru gan fatri: (llai na 40 folt)	Na	Na	Na
Foltedd isel iawn: (llai na 50 folt AC): Offer ffôn, goleuadau desg foltedd isel	Na	Na	Na
Cyfrifiaduron pen desg, sgriniau VDU	Na	le, 2-4 mlynedd	Na os oes ynysiad dwbl, fel arall hyd at 5 mlynedd
Llungopiwyrr, peiriannau ffacs: Nid mewn llaw. Symudir yn anaml	Na	le, 2-4 mlynedd	Na os oes ynysiad dwbl, fel arall hyd at 5 mlynedd
Offer gydag ynysiad dwbl  (Dosbarth II): Nid mewn llaw. Symudir yn achlysurol, e.e. gwyntyllau, lampau bwrdd	Na	le, 2-4 mlynedd	Na
Offer gydag ynysiad dwbl  (Dosbarth II): Mewn llaw, e.e. rhai glanhawyr llawr, rhai offer cegin	le	le, 6 mis – 1 mlynedd	Na
Offer wedi daearu (Dosbarth I): Tegellau trydan, rhai glanhawyr llawr, rhai offer cegin a haearnau	le	le, 6 mis – 1 mlynedd	le, 1-2 mlynedd
Ceblau (lidiâu a phlygiau wedi eu cysylltu i'r uchod) a lidiâu estyniad foltedd prif gyflenwad ac offer gwefru batris	le	le, 6 mis – 4 mlynedd yn ddibynnol ar y math o offer mae wedi ei gysylltu iddo	le, 1-5 mlynedd yn ddibynnol ar y math o offer mae wedi ei gysylltu iddo

**Nodiadau ar gyfer Tabl 1**

- Dylid cynnal ceblau, gwifrau a phlygiau sy'n gysylltiedig i offer Dosbarth II yn rhan o'r offer hwnnw. Dylid cynnal ceblau, gwifrau a phlygiau nad ydynt ar gyfer defnydd penodol gydag eitem o offer fel eitemau unigol fel fo'n briodol.
- Gydag amser, pan fyddwch yn edrych ar ganlyniadau'r gwiriadau defnyddwyr, archwiliadau gweledol a, ble fo'n briodol, profion offer symudol, byddwch yn sylwi ar y tueddiadau. Efallai y byddant yn dweud wrthyhch fod angen i chi edrych ar neu brofi offer trydanol yn llai (neu fwy) aml, yn ddibynnol ar y nifer o broblemau a ganfyddir. Ceir rhai enghreifftiau o sut i wneud hyn ar ein gwefan ([www.hse.gov.uk/electricity/faq-portable-appliance-testing.htm](http://www.hse.gov.uk/electricity/faq-portable-appliance-testing.htm)).
- Os yw offer trydanol wedi ei grwpio ynghyd i'w brofi ar yr un pryd, dylech ddefnyddio'r cyfnod profi byrrach yn y grŵp yn hytrach na'r hirach. Neu, gallai fod yn briodol i grwpio eich offer trydanol yn ôl cyfnod profi.

## **Dod o hyd i ragor o wybodaeth**

*Maintaining portable electrical equipment* HSG107 (Trydydd argraffiad) HSE Books 2013 ISBN 978 0 7176 7201 6

[www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm)

*Memorandum of guidance on the Electricity at Work Regulations 1989. Guidance on Regulations* HSR25 (Ail argraffiad) HSE Books 2007 ISBN 978 0 7176 6228 9  
[www.hse.gov.uk/pubns/books/hsr25.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsr25.htm)

*Health and safety made simple: The basics for your business* Taflen INDG449 HSE Books 2011 [www.hse.gov.uk/pubns/indg449.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.htm)

Tudalennau gwe 'Diogelwch trydanol yn y gwaith' yr HSE:


[www.hse.gov.uk/electricity](http://www.hse.gov.uk/electricity). Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys astudiaethau achos:  
[www.hse.gov.uk/electricity/faq-portable-appliance-testing.htm](http://www.hse.gov.uk/electricity/faq-portable-appliance-testing.htm)

## **Rhagor o wybodaeth**

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd ar anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk). Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllaw, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaid ar gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn.

Mae'r daflen ar gael o: [www.hse.gov.uk/pubns/indg236W.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg236W.htm).

©  *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno ailddeddfyddio'r wybodaeth hon, ewch i [www.hse.gov.uk/copyright.htm](http://www.hse.gov.uk/copyright.htm) am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 09/12.